FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

Canllawiau Aelodaeth

Cyflwyniad

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn ariannu, yn hyfforddi ac yn cynghori sefydliadau sy'n sgrinio ffilm, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydol cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 260 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau annibynnol y DU a ffilmiau rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru.

Rydyn ni'n rhan o rwydwaith y DU cyfan a ariennir gan y British Film Institute (BFI) sy'n ffurfio Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (RhCFf), gyda Chapter wedi'i benodi'n 'Sefydliad Arweiniol Canolfan Ffilm' (SACFf) yng Nghymru.

Rydyn ni hefyd yn goruchwylio Cynhwysiant Economaidd Cymdeithasol ar ran RhCFf y BFI (dan arweiniad y Cefnogwr Linnea Pettersson) ac roeddem yn falch o arwain Strategaeth Sinema Gynhwysol y DU ar ran RhCFf y BFI 2017-23.

Os ydych chi'n sgrinio ffilmiau i gynulleidfa gyhoeddus, gallwch ddod yn aelod ac elwa o'n hymchwil, cyrsiau hyfforddi, bwrsariaethau, cronfeydd, cyngor a mwy.

Diolch i arian y Loteri Genedlaethol, ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013, rydyn ni wedi cefnogi dros 400 o brosiectau sinema, gan gyrraedd dros 750,000 o aelodau'r gynulleidfa. Cymerwch olwg ar rai o'r uchafbwyntiau hyd yma i ddarganfod beth rydyn ni wedi'i ariannu yn y gorffennol a phrosiectau rydyn ni wedi'u creu.

BFI FAN BFI FILM AUDIENCE NETWORK
THE NATIONAL LOTTERY
CHAPTER

Y Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Sefydlwyd RhCFf yn ystod 2012 gan ddefnyddio cyllid gan y Loteri Genedlaethol i gefnogi dull cryfach a mwy cysylltiedig o dyfu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol ar y sgrin fawr.

Mae RhCFf wedi'i ffurfio o wyth Sefydliad Canolfan Ffilm Arweiniol ar draws y DU. Mae'r sefydliadau Mae'r sefydliadau arbenigol ffilm hyn (Hybiau Ffilm) yn darparu cyrhaeddiad daearyddol cynhwysfawr ac yn rhannu nodau'r BFI o gynyddu'r ystod o ddiwylliant sgrin sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chefnogi datblygiad sector arddangos y DU.

Mae RhCFf yn gweithio i gyflawni nodau strategaeth Diwylliant Sgrin BFI 2033.

Dyma ganlyniadau BFI penodol ar gyfer RhCFf:

- Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso i ddatblygu eu perthynas ag ystod ehangach o ddiwylliant sgrin.

- Gall pobl ledled y DU gael mynediad at ddewis ehangach o ffilm a'r ddelwedd symudol gan gynnwys straeon sy'n adlewyrchu eu bywydau.

- Mae cyllid yn helpu i fynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol, economaidd a daearyddol i gynulleidfaoedd sgrin mewn ffyrdd newydd ac effeithiol.

- Mae sgiliau hanfodol y sector na ellir eu darparu gan y farchnad fasnachol yn cael eu datblygu.

- Gall mwy o bobl ymgysylltu â chasgliadau treftadaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU yn well.

Yn ogystal, mae RhCFf yn ymdrechu i gyflawni yn erbyn tair egwyddor drawsbynciol ar gyfer cyllid y Loteri Genedlaethol y BFI:

- Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Ledled y DU
- Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Er mwyn ymuno, rhaid i aelodau rannu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau strategol fel y cyflwynir yn strategaeth Diwylliant Sgrin BFI 2033.

Aelodaeth

Mae aelodaeth Canolfan Ffilm Cymru AM DDIM i gyrff cymwys ac mae'n cynnig amrediad o fanteision yn cynnwys:

- **Cyfleoedd ariannu** - ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd a bwrsariaethau ar gyfer hyfforddiant (yn amodol ar argaeledd ac asesiad),
- **Cyfleoedd datblygu** - mynediad at hyfforddiant a chyrsiau datblygu proffesiynol, digwyddiadau, mentora gan gymheiriaid a chefnogaeth,
- **Rhwydweithio** - digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd a gynhelir gan yr Hyb a'i bartneriaid, ar draws RhCFf,
- **Cydweithio** - cymryd rhan mewn prosiectau ar y cyd yn seiliedig ar raglennu a datblygu cynulleidfa, a hynny ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol,
- **Cyngor** - ar draws ystod eang o bynciau, megis rhaglennu, datblygu cynulleidfa a dangos ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig,
- **Mewnwelediad i'r gynulleidfa** - mynediad i ymchwil am dueddiadau'r gynulleidfa ac arddangos ffilmiau,
- **Cefnogaeth marchnata** - hyrwyddo drwy wefannau'r ganolfan a FAN, rhestrau postio a sianeli cyfryngau cymdeithasol,
- **Eiriolaeth** - cyfle i fod yn rhan o lais cyfunol cryf ar gyfer arddangos ffilm a chynulleidfaoedd.

Sut i Ymuno

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau ymaelodi gan unrhyw sefydliad yng Nghymru sy'n;

- Dangos ffilmiau i gynulleidfaoedd cyhoeddus neu i'w aelodaeth (neu sydd â chynlluniau i wneud hynny o fewn y cyfnod o 12 mis ers ymuno),

ac/neu

- Sydd â diddordeb mewn ehangu'r amrediad o ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd a chyfoethogi gwerth diwylliannol y gweithgaredd dangos ffilmiau yn y gymuned.

Os nad yw eich sefydliad wedi'i leoli yng Nghymru, dylech gysylltu â Chanolfan Ffilm Cymru cyn cwblhau cais aelodaeth.

Mae cyrff cymwys yn cynnwys:

(ond nid yn gyfyngedig i)

- Sinemâu (o unrhyw fath),
- Canolfannau celfyddydau cymysg gyda darpariaeth sinema,Cymdeithasau ffilm yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr a sinemâu cymunedol,
- Sinemâu teithiol a rhwydweithiau sgrin cymunedol,
- Gwyliau ffilm,
- Archifau sgrin,
- Digwyddiadau ffilm pop-yp rheolaidd,
- Sefydliadau academaidd,
- Amgueddfeydd ac orielau,
- Adrannau ac asiantaethau awdurdodau lleol,
- Asiantaethau datblygu lleol a rhanbarthol,
- Grwpiau cymunedol a darparwyr hamdden.

Er mwyn ymaelodi, cwblhewch ein ffurflen gais ac arwyddwch ein datganiad.

Nodwch mai

- Rhaid i gyrff fod â chyfansoddiad ffurfiol (e.e. fel cwmni buddiant cymunedol neu yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig cofrestredig yn Nhŷ'r Cwmnïau);
- Elusen neu ymddiriedolaeth gofrestredig sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau;
- Awdurdod Lleol neu gorff statudol;
- Neu grŵp gwirfoddol gyda chyfansoddiad ysgrifenedig a chyfrif banc.

Rhowch ddolen i'ch cofnod ar Dŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennau os yw'n berthnasol. Efallai y byddwn yn gofyn am ddolenni i ddogfennau eraill ar gyfer eich statws sefydliadol / cyfansoddiad fel y bo'n briodol.

Cefnogaeth

- ·Mae cymorth ariannol ar gael i aelodau yn unig.
- Nid yw aelodaeth yn golygu eich bod yn gymwys yn awtomatig ar gyfer cynlluniau a mentrau, edrychwch ar ein canllawiau cyllido am fanylion
- Nid yw unigolion yn gymwys i gael aelodaeth RhCFf.

Manylion Cyswllt

- **Lisa Nesbitt, Swyddog Cynorthwyo Aelodau** - lisa@filmhubwales.org / 02920 311067
- **Hana Lewis, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru** - hana@filmhubwales.org / 02920 353740